Gwerth Amgylchedd Cymru

Adolygiad 2001–2006

Mae Partneriaeth Gwerth ein Hamgylchedd yn cydweithio i ddatguddio tystiolaeth economaidd gadarn fod yr amgylchedd yn sylfaenol i ffyniant Cymru.

Arweinir y bartneriaeth gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ynghyd â'i phartneriaid craidd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a Llywodraeth Cynulliad Cymru – yr Adran dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (AFARh). Mae partneriaid eraill wedi cydweithio â ni ar astudiaethau penodol.

Ers 2001 mae'r partneriaid wedi comisiynu cyfres o astudiaethau ar effaith yr amgylchedd ar economi Cymru. Crynhoir canlyniadau pennawd yr holl astudiaethau yma.

Gwerth ein Hamgylchedd

Effaith Economaidd Amgylchedd Cymru

Yn 2001 comisiynwyd ymchwil gan y Bartneriaeth a gyfrifodd, am y tro cyntaf, effaith economaidd holl amgylchedd Cymru. Dyma'r canfyddiadau:

- Mae ansawdd yr amgylchedd yn sylfaenol i economi Cymru.
- Mae £6 biliwn o GMC Cymru yn dibynnu'n uniongyrchol ar yr amgylchedd – hynny yw oddeutu 9% o GMC Cymru.
- Mae'r amgylchedd yn cynnal 1 o bob 6 o swyddi yng Nghymru.
- Mae'r amgylchedd yn cyfrannu £1.8 biliwn mewn cyflogau at economi Cymru bob blwyddyn.
- Mae gwaith sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli, defnyddio a gwerthfawrogi amgylchedd naturiol Cymru yn creu 117,000 o swyddi llawn amser.
- Mae gwaith ychwanegol yn ymwneud â hyn yn golygu bod y cyfanswm o swyddi yng Nghymru sy'n dibynnu ar yr amgylchedd yn codi i 169,000.
- Mae rheoli a defnyddio'r amgylchedd, ac effeithiau economaidd cynyddol hyn, yn cynhyrchu allbwn o nwyddau a gwasanaethau sydd werth £8.8 biliwn i Gymru bob blwyddyn.

Gosodwyd y gweithgareddau economaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn y categorïau canlynol:

Dibynnol ar ansawdd yr amgylchedd (ee twristiaeth a hamdden)

Defnyddwyr dwys o adnoddau amgylcheddol (ee amaethyddiaeth a thynnu dŵr)

Gwarchod a gwella'r amgylchedd (ee cadwraeth a rheoli gwastraff)

Mae'r astudiaeth lawn a chrynodeb technegol yn amlinellu'r ffynonellau o wybodaeth a'r fethodoleg ar gyfer y gwaith hwn ar gael ar y wefan neu ar gais.

Effaith y canlyniadau hyn:

Mae'r ystadegau trawiadol hyn yn parhau i wireddu nod y Bartneriaeth o ddylanwadu ar ddatblygiad polisi cyhoeddus. Fe'u dyfynnwyd mewn dogfennau allweddol yn cynnwys:
Cynllun Gofodol Llywodraeth Cynulliad Cymru
Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru
Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Araith Gweinidog Amgylchedd yr UE wrth agor yr Wythnos Werdd ym Mrwsel 2006

Mae'r amgylchedd yn sylfaenol i ffyniant Cymru

Gwerth ein Hamgylchedd

Dadansoddiad Rhanbarthol o Gymru

Wedi hynny, rhannwyd y canlyniadau ledled Cymru gan y Bartneriaeth i bedwar rhanbarth economaidd Cymru (2003). Dengys hyn bod ansawdd yr amgylchedd yn cyfrannu'n sylweddol at economi holl ranbarthau Cymru.

Rhanbarth economaidd Cymru	Allbwn yn ymwneud â'r amgylchedd (uniongyrchol ac anuniongyrchol)	CMC
De ddwyrain	£2.4 biliwn	dros £900 miliwn
Gogledd	£2.25 biliwn	bron i £600 miliwn
De orllewin	£2 biliwn	bron i £600 miliwn
Canolbarth	dros £1 biliwn	bron i £300 miliwn

Mae'r amgylchedd yn arbennig o bwysig yn nhermau cyflogaeth yng nghanolbarth Cymru lle mae'n gyfrifol am draean o'r holl gyflogaeth; yn rhanbarthau eraill Cymru mae'r ffigwr hwn yn amrywio o 11% i 18%.

Mae busnesau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru wledig yn creu gwaith pwysig i fusnesau yn ne ddwyrain Cymru – yn enwedig yn y sector gwasanaethau. Lleolir hanner y 53,000 o swyddi anuniongyrchol sy'n ymwneud â rheolaeth, deunydd a mwynhad o'r amgylchedd naturiol yn y rhanbarth hwn.

Gwerthfawrogi Asedau

Amcangyfrif Gwerth Economaidd Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Cyfrannodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol at y casgliad o astudiaethau 'Gwerth ein Hamgylchedd' drwy gomisiynu'r ymchwil hwn yn 2002. Yr astudiaeth hon oedd y cam cyntaf tuag at osod gwerth economaidd ar yr amgylchedd hanesyddol – gan gydnabod bod hanes a'i ddylanwadau yn amhrisiadwy.

Yn ôl amcangyfrif yr astudiaeth:

- roedd cyfanswm effaith amgylchedd hanesyddol Cymru oddeutu £780 miliwn
- roedd yr amgylchedd hanesyddol yn cynnal mwy na 22,500 o swyddi
- roedd 80% o atyniadau mwyaf poblogaidd Cymru yn safleoedd hanesyddol

Adferiad Gwledig Cynaladwy

I gyd-fynd â'r astudiaethau hyn ledled Cymru, comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol asesiadau effaith buddsoddiad cymdeithasol-economaidd mewn dau broject amgylcheddol ar feddiannau'r Ymddiriedolaeth yn Llanerchaeron yng Ngheredigion ac yn Nantgwynant yn Eryri (2004).

Dangosodd y rhain fod buddsoddi gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, nawdd Amcan 1 Ewrop a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn amgylchedd naturiol a hanesyddol Cymru: yn rhoi hwb i gymunedau gwledig; yn eu galluogi i ddatblygu mewn ffordd gynaladwy; yn sicrhau effeithiau cymdeithasol ac economaidd positif parhaol; ac yn creu 'adferiad gwledig cynaladwy' o'r buddsoddiad cyhoeddus.

Darganfyddiadau allweddol:

- cyfanswm incwm net effaith adnewyddu Stad Llanerchaeron oedd £1.94 miliwn. Rhoddodd hyn luosydd lleol o 1.23, sy'n hynod o sylweddol.
- yn Nantgwynant cyfrifwyd bod yr effaith economaidd (2000-2004) yn £2.26 miliwn o incwm a grëwyd yn lleol sydd cymaint â 5% o'r CMC lleol. Aeth 85% o'r £3.25m a wariwyd ar y project i gontractwyr lleol.



Gwerth yr Amgylchedd

Gwerth Economaidd tri Pharc Cenedlaethol Cymru

Dengys yr ymchwil bod amgylchedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru. Mae amgylchedd y Parciau yn:

- Cynnal bron i 12,000 o swyddi
- Cynhyrchu cyfanswm incwm o £177 miliwn i fusnesau
- Creu £205 miliwn o CMC

Mae'r Parciau Cenedlaethol yn eiconau ar gyfer twristiaeth y tu mewn a'r tu allan i'w ffiniau ac yn cynnig delwedd brandio cryf ar gyfer nwyddau a gwasanaethau Cymru. Mae llawer o fudd economaidd y Parciau yn digwydd y tu allan i'w ffiniau. Yn ogystal â chefnogi'r economi lleol felly, mae'r Parciau yn cefnogi economi Cymru gyfan.

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Bartneriaeth Gwerth ein Hamgylchedd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel y prif ariannwr (2006). Y partneriaid ychwanegol yn yr astudiaeth hon oedd tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol.

Gwerth yr Amgylchedd

Gwerth Economaidd Amgylchedd Arfordirol a Morol Cymru

Dengys yr ymchwil hwn bod cyfoeth ac amrywiaeth amgylchedd arfordirol a morol Cymru yn hanfodol i economi Cymru.

- Cynnal bron i 92,600 o swyddi
- Cynhyrchu cyfanswm incwm o £6.8 biliwn
- Creu £2.5 biliwn o CMC

Y diffiniadau a ddefnyddiwyd oedd:

Arfordirol – "y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau neu wasanaethau sy'n digwydd ar y tir ond sy'n dibynnu ar fod yn agos at y môr."

Morol – "y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â gweithio yn neu ar y môr."

Dengys yr astudiaeth bod ffyniant rhannau sylweddol o Gymru yn dibynnu'n fawr ar yr amgylchedd arfordirol a morol, ond bod yr amgylchedd hwnnw fel adnodd o dan bwysau cynyddol a chystadleuol. Mae cyd-ddibyniaeth gref rhwng datblygiad economaidd effeithiol a chynnal ansawdd amgylcheddol.

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Bartneriaeth Gwerth ein Hamgylchedd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel y prif ariannwr (2006).

Y partneriaid ychwanegol yn y bartneriaeth hon oedd WWF Cymru a Phartneriaeth Arfordirol a Morwrol Cymru.

Am ragor o wybodaeth gweler **www.nationaltrust.org.uk/walespolicy**
neu ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar **029 2046 2281**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn print fformat mawr.

Cyhoeddwyd ar bapur nad yw'n cynnwys clorîn ac a wnaed o ffynonellau cynaladwy gan ddefnyddio inciau yn seiliedig ar lysiau.

Hydref 2006

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Heritage Lottery Fund

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Mae'r amgylchedd yn sylfaenol i ffyniant Cymru